**Huw Lewis AC / AM**
**Y Gweinidog Addysg a Sgiliau**
**Minister for Education and Skills**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y Cynghorydd Alun Thomas OBE
Arweinydd y Cyngor
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

CC
Holl Arweinwyr yr Awdurdodau Lleol
Arweinydd CLlLC
Prif Weithredwr CLlLC

14 Awst 2014

Ysgrifennais atoch ar 22 Gorffennaf i'ch hysbysu bod gofyn i ni wneud rhai gostyngiadau yn ystod y flwyddyn yn fy mhortffolio i er mwyn cefnogi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.

Fel y gwyddoch, mae Cymru'n wynebu setliad ariannol eithriadol o anodd gan Lywodraeth y DU ac mae'r arian sydd ar gael ar gyfer ein gwasanaethau cyhoeddus yn lleihau bob blwyddyn. Yn wir, fel y gwyddoch hefyd rwy'n siŵr, erbyn 2015-16 bydd cyfanswm cyllideb Llywodraeth Cymru £1.7 biliwn yn llai nag yr oedd yn 2010-11. Mae'r gostyngiad hwn yn golygu bod Llywodraeth Cymru wneud gorfod gwneud rhai penderfyniadau anodd iawn, a oedd yn fwy heriol fyth yn dilyn canfyddiadau adroddiad Ymddiriedolaeth Nuffield ar gyllid ar gyfer y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru. Yn ei Datganiad diweddar ar y Gyllideb Atodol ar 15 Gorffennaf, amlinellodd y Gweinidog Cyllid y gallai fod angen ail-flaenoriaethu'r cyllidebau ar gyfer eleni ac ar gyfer y blynyddoedd i ddod ar draws Llywodraeth Cymru i fodloni goblygiadau adroddiad Ymddiriedolaeth Nuffield.

O ganlyniad, mae gofyn i nifer o adrannau, gan gynnwys fy adran i, wneud gostyngiadau yn ystod y flwyddyn a bydd y rhain yn effeithio ar nifer o feysydd gwariant yn fy mhortffolio i.

Nid oes opsiynau hawdd ar gyfer gwneud y toriadau hyn, ac er y bydd arbedion effeithlonrwydd yn gwneud iawn am rywfaint o'r toriadau, mae'n anochel y bydd rhai yn effeithio ar wasanaethau. Mae ein hymrwymiad i ddiogelu cyllid ysgolion ar 1% uwchlaw'r newidiadau i gyfanswm cyllideb Cymru yn parhau, ond mae cyfanswm y cyllid sydd wedi bod ar gael yng nghyllideb AdAS yn y blynyddoedd diweddar yn fwy na hyn. Felly, rwyf wedi gorfod ystyried y posibilrwydd o leihau rhai o'r grantiau i ysgolion fel rhan o'r broses ail-flaenoriaethu ac, fel y gwyddoch, rwy'n ceisio sicrhau gostyngiad cyffredinol o hyd at £5 miliwn o'r cyllidebau hyn.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Gohebiaeth.Huw.Lewis@cymru.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

Mae fy swyddogion eisoes wedi trafod â chi'r cynigion ar gyfer toriadau, ac rwyf wedi gofyn iddynt barhau i weithio gyda chi i nodi'r ffordd orau o gyflawni'r gostyngiadau hyn yn ystod y flwyddyn fel bod gennych yr hyblygrwydd i benderfynu ar y dull gweithredu cywir ar gyfer eich sefydliadau a'ch ysgolion chi. Fel rhan o'r trafodaethau hyn, rwyf wedi gofyn iddynt weithio â chi i greu system grant newydd symlach ar gyfer 2015-16 a fydd yn arwain at fwy o hyblygrwydd o ran cyllid ac, yn y pen draw, ganlyniadau gwell i'n dysgwyr. Mae'r angen i sicrhau arbedion yn ystod y flwyddyn yn golygu y gallai fod o fantais i chi ystyried y flwyddyn ariannol bresennol hefyd er mwyn sicrhau bod gennych gymaint o hyblygrwydd â phosibl.

Gwyddwn fod y gostyngiadau anochel hyn yn anodd i bawb, ac rwyf am eich sicrhau chi bod fy mlaenoriaethau i a Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg yn parhau heb eu newid. Dim ond drwy gydweithio y byddwn yn sicrhau'r gwelliannau rydym i gyd eu heisiau mewn addysg yng Nghymru wrth reoli cyllidebau sy'n lleihau. Hyderaf y gallaf ddibynnu ar eich cefnogaeth barhaus i gyflawni'r newidiadau hyn i'r ffordd rydym yn gweithio a sicrhau'r gorau i'n dysgwyr ar draws Cymru.

Yn gywir



**Huw Lewis AC**
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau